# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 20 Mehefin 2013 i'w hateb ar 25 Mehefin 2013

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Ken Skates (De Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r diwydiant ynni niwclear yng Nghymru? OAQ(4)1148(FM)

2. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am farchnad allforio Cymru? OAQ(4)1140(FM)

3. **Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer datblygu economaidd yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)1151(FM)

4. **Elin Jones (Ceredigion):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hybu economi gorllewin Cymru? OAQ(4)1142(FM)**W**

5. **Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** A wnaiff y Gweinidog nodi pa faterion a drafodwyd pan gyfarfu ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru? OAQ(4)1154(FM)**W**

6. **Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dargedau amseroedd aros y GIG ar gyfer Powys? OAQ(4)1146(FM)

7. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y rheswm y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn ofynnol rhoi cymhorthdal o dros £6 miliwn y flwyddyn ar gyfer ffioedd wrth giât y llosgydd ar gyfer Prosiect Gwyrdd? OAQ(4)1145(FM)

8. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i newid y rhyddhad ardrethi busnes? OAQ(4)1147(FM)

9. **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i leihau nifer y bobl sy'n ysmygu yng Nghymru? OAQ(4)1149(FM)

**10. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am iechyd anifeiliaid yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)1152(FM)**R**

**11. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau sawl adeilad rhestredig Gradd 1 sydd ar gael yng Nghymru? OAQ(4)1141(FM)

**12. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i'r rheini sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf? OAQ(4)1139(FM)

**13. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am oblygiadau adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ar Gymru? OAQ(4)1150(FM)

**14. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu twf economaidd yng Nghymru? OAQ(4)1144(FM)

**15. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am lefel y gwariant ar hyn o bryd ar y GIG yng Nghymru? OAQ(4)1143(FM)